

## Prosesu Geiriau Level 1 – 03946

### Summer month 2009

Llwyddodd pob ymgeisydd i gwblhau'r papur arholiad. Roedd y safon yn fodhaol gydag ôl rhai ymgeiswyr yn prawf-ddarllen eu gwaith yn ofalus. Nid oedd y safon cystal ag a gafwyd mewn blynnyddoedd cynt ond efallai bod hynny oherwydd bod elfennau newydd yn yr arholiad eleni. Bach iawn oedd nifer yr ymgeiswyr a llwyddodd i ennill Clod Uchel.

#### Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn gymharol dda. Llwyddodd yr ymgeiswyr i newid yr ymyl chwith yn gywir a llwyddodd rhai i ddefnyddio ymylon wedi'u hunioni. Os na ddefnyddiwyd unioni llawn, coswyd dan 4S. Llwyddont i fewnleoli'r paragraff yn ôl y cyfarwyddyd ond ni llwyddodd pawb i roi enw'r ffeil a'r llwybr yn awtomatig yn y troedyn yn gywir (2.3). Ni llwyddodd ambell ymgeisydd i gyfri'r geiriau'n gywir (2.3) ac roedd ambell ymgeisydd heb nodi cyfri'r geiriau o gwbl ar waelod y ddogfen (2.3). Cafwyd ambell enghraifft o ymgeisydd yn copio testun yn hytrach na'i symud i'r man cywir (3.4) ac ni llwyddodd pawb i ddefnyddio gofod dwbl yn ôl y cyfarwyddyd (4C). Cafwyd gwallau teipio yn y pennawd mewn priflythrennau ac nid pawb a ddefnyddiodd W fawr wrth deipio'r gair 'Wyddfa' (1.7). Methodd ambell ymgeisydd gychwyn paragraff newydd pan nodwyd hynny gan farc cywiro (3.3).

#### Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn arbennig o dda. Llwyddodd bron pob ymgeisydd i ganoli'r pennawd ac ambell un yn unig a fethodd â thrawsosod y paragraffau yn gywir (3.1). Bu pawb yn llwyddiannus wrth fewnosod y llun a rhoi border i'r dudalen gyfan. Fe wnaeth ambell ymgeisydd bwysleisio mwy o destun na'r frawddeg a ofynnwyd amdani (4D). Yn y rhan fwyaf o scriptiau, tanlinellwyd yn ôl y gofyn. Os na wnaed hynny, coswyd o dan 2.3. Ambell ymgeisydd yn unig a fethodd â chanoli'r pennawd (4F). Methodd ambell ymgeisydd ddileu'r 3 gair o'r testun a alwyd yn ôl a oedd wedi eu croesi allan – 1 gwall o dan 2.2. Coswyd gwallau teipio yn bennaf yn y ddogfen hon.

#### Dogfen 3

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gwblhau'r ddogfen hon yn fodhaol. Methodd ambell un â theipio penawdau'r colofnau mewn priflythrennau fel yn y drafft (4J). Hefyd, yng ngholofn gyntaf ac ail golofn y tabl, ni wnaeth ambell ymgeisydd ddefnyddio priflythyren ddechreuel fel yn y drafft. Coswyd am bob enghraifft o hyn (1.7). Fe wnaeth pob ymgeisydd newid trefn colofnau'r tabl yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, fe goswyd ambell ymgeisydd am adael llinell wag ar ôl penawdau'r tabl er iddynt ddewis llinellu'r tabl. Roedd hyn yn gadael un rhes wag o 3 cell ac fe goswyd hyn o dan 4L. Dewisodd ambell ymgeisydd arall llinellu'r tabl ond nid oeddent wedi caniatáu llinell wag ar ôl penawdau'r colofnau – mae hyn yn dderbyniol os ydynt yn llinellu'r tabl. (Gweler 4B a 4L.) Dewisodd

rhai ymgeiswyr beidio â llinellu'r tabl, sy'n dderbyniol, ond wedyn rhaid gadael llinell wag ar ôl y penawdau. Os na wnaed hynny, fe'u cosbwyd 1 gwall (4B).

#### Dogfen 4

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda iawn. Cosbwyd yn bennaf am wallau teipio. Ni lwyddodd sawl ymgeisydd ddefnyddio'r croesi allan ar ddiwedd y ffurflen (2.3) a rhoddodd ambell ymgeisydd ddyddiad Saesneg ar frig y ffurflen (2.1). Cafwyd sawl enghraifft o ymgeiswyr yn teipio 'Tei lyngdod' yn hytrach na 'Teilyngdod'. Cosbwyd hefyd os oedd ymgeiswyr wedi dileu y llinellu o gwmpas y ffurflen (2.3).

---

All candidates succeeded in completing the examination paper. The standard was satisfactory with evidence of some candidates proof-reading their work carefully. The standard wasn't as good as in previous years and possibly this was due to new elements being introduced in the exam this year. Only a few candidates managed to achieve a Distinction grade.

#### Document 1

This document was completed relatively well. Candidates succeeded in changing the left margin correctly and most used full justification. If full justification was not used, a penalty under 4S was incurred. Candidates managed to inset the paragraph according to the instruction but some candidates failed to include the automatic filename and path in the footer area correctly (2.3). Some candidates did not perform the word count correctly (2.3) and some did not include the word count at all (2.3). Very few candidates copied the text rather than moving it to the correct location (3.4) and not all candidates changed to double line spacing according to the instruction (4C). Some candidates had keying in errors in the main heading and a number of candidates failed to use an initial capital W when typing the word 'Wyddfa' (1.7). Another common error was 'gweledig' for the word 'gwledig'. Some candidates failed to start a new paragraph according to the correction sign (3.3).

#### Document 2

This document was completed very well. Nearly all candidates managed to centre the heading and only a few did not complete the vertical transposition correctly (3.1). All candidates managed to insert a picture correctly and to apply a full page border. Some candidates emphasised more text than the sentence required (4D). In the majority of scripts, underlining was applied correctly. If this was not done, candidates were penalised under 2.3. Very few candidates did not centre the heading (4F). Some candidates did not delete 3 words from recalled text that had been crossed out – 1 error under 2.2. Keying in errors were mostly penalised in this document.

### Document 3

Most candidates were successful in completing this document satisfactorily. Some candidates failed to type the column headings in block capitals as per draft (4J). Also, in the table's first and second columns, some candidates did not always start with an initial capital as per draft. Each instance was penalised under 1.7. All candidates changed the order of the table columns as required. However, some candidates were penalised for leaving a blank row after the column headings even though they had opted to rule the table. This resulted in one row of three blank cells and this was penalised under 4L. Other candidates opted to rule the table but did not allow a blank row of cells after the column headings - this is acceptable if ruling is used. (See 4B and 4L). Some candidates chose not to use ruling, which is acceptable, but then a blank line must be left after the column headings. If this was not done, they were penalised 1 error (4B).

### Document 4

This document was completed well. Penalties were incurred mostly for keying in errors. However, a number of candidates were penalised for not using the strikethrough facility at the end of the form (2.3) and some candidates entered the date in English (2.1) at the top of the form. There were many examples of keying in 'Tei lyngdod' instead of 'Teilyngdod'. A number of candidates were penalised for removing the ruling from the form (2.3).